# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 11 Hydref 2012 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Meirick Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Huw Williams

**Observers :** Y Cynghorydd Martyn Holland a/ac Y Cynghorydd Gwyneth Kensler

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyd-bennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd (SD), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriad (HW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Rhedydd Prosiect Rhanbarthol (DE) (Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol) Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Alice Jones, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganodd unrhyw Aelodau unrhyw fuddiannau personol na rhagfarn mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Cododd y Cynghorydd Huw Williams fater mewn perthynas ag erthygl ym mhapur newydd *The Times* a gyhoeddodd restr o'r Prifysgolion brig yn y DU. Cododd y mater am fod "Adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru" wedi bod yn eitem mewn cyfarfod blaenorol. Yn y cyfarfod, roedd Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr, yr Athro Mike Scott, yn bresennol ac wedi rhoi cyflwyniad. Roedd y ffigurau a restrwyd yn *The Times* yn gosod Prifysgol Glyndŵr yn y 108$^{fed}$ safle ar y rhestr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (CD:C) y byddai'n dadansoddi'r ffigurau ac yn ysgrifennu wedyn at yr Athro Mike Scott am yr erthygl. Pan fyddai'n cael ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y byddai'n rhoi gwybod amdano i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

## 4 CYDWEITHIO PRIFFYRDD A SEILWAITH RHWNG CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (CD:C) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ystyried argymhellion Bwrdd Rhaglen Gydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych ar ôl ystyried "*Cyd-wasanaeth Cwbl Integredig Priffyrdd a Seilwaith CBS Conwy a CS Dinbych: Adroddiad am y Dyluniad Gwasanaeth Drafft (Medi 2012)'* ar 12 Medi, 2012.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, Danielle Edwards, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a oedd wedi llunio'r adroddiad sydd ynghlwm ym mhapurau Atodiad 1.

Bu adrannau Priffyrdd Conwy a Sir Ddinbych yn cydweithio ers 3 blynedd. Sefydlodd Conwy a Sir Ddinbych Fwrdd Cydweithio ac roeddent wedi penderfynu gwerthuso'r cynllun ymlaen. Roedd y Bwrdd Cydweithio wedi cyfarfod ag Aelodau Arwain, Swyddogion a'r Prif Weithredwr i edrych ar ddyfodol y prosiect a gwerthuso a oedd gwerth integreiddio'r gwasanaethau'n llwyr. Daethpwyd i'r casgliad nad integreiddio llwyr fyddai'r ffordd ymlaen, ond nid oedd hynny'n golygu na ddylid cydweithio o gwbl.

Penderfynodd y Bwrdd Cydweithio y byddai adroddiad yn cael ei anfon at Gabinet Conwy a Sir Ddinbych ar 23 Hydref yn y drefn honno a chyflwyno'r adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau heddiw ac i Bwyllgor Craffu Conwy ar 16 Hydref. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddychwelyd hefyd i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar ôl y cyfarfodydd uchod.

Bu'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol yn crynhoi'r prif flaenoriaethau. Roedd y Bwrdd Cydweithio'n teimlo nad oedd yr Achos Busnes Llawn yn achos dichonadwy. Aseswyd sut byddai gwasanaethau'n cael eu staffio, ac a fyddai mwy neu lai o staff yn ofynnol. Hwnnw oedd un agwedd ar y prosiect. Ar ôl deall sut byddai gwasanaethau'n cael eu darparu, y cwestiwn nesaf fyddai ble fyddai'r gwasanaethau'n cael eu lleoli? Y tri dewis oedd:-

- Dewis 1 – Symud staff yr Heath i safle Caledfryn
- Dewis 2 - Cadw safleoedd Caledfryn a'r Heath, gan ad-drefnu'r staff yn ôl meysydd gwasanaeth/iswasanaeth lle'n briodol
- Dewis 3 – Gosod staff o'r Heath a Chaledfryn mewn adeilad a arferai gael ei ddefnyddio'n lle swyddfa ym Mharc Busnes Llanelwy.

Ni fyddai'n ddichonadwy trosglwyddo staff i safle'r Heath yn Llanfairfechan oherwydd nid oedd safle'r Heath yn addas.

Byddai goblygiadau TGCh wrth symud staff a lleoliad.

Roedd Adran 10 o'r adroddiad yn cyfeirio at y model ariannol, a ddangosai gostau posibl y 3 dewis.

Ar ôl i'r Pwyllgor gael trafodaeth, cyflwynwyd ymholiadau amrywiol ac ymatebwyd iddynt fel a ganlyn:-

- Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol nad oedd costau tarfu wedi'u cyfrifo eto oherwydd byddai hyn yn golygu darn sylweddol o waith
- Eglurodd y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol y dylai ddweud yn yr adroddiad "gwaredu swyddi" yn hytrach na "gwaredu staff". O ran yr effaith ar staff, roedd staff Conwy a Sir Ddinbych wedi cael eu proffilio. Er mwyn gwneud arbedion, byddai angen colli swyddi. Byddai 9 swydd newydd yn cael eu creu. Roedd y swyddi newydd hyn yn cyfateb i swyddi cyfredol gan leihau'r swyddi a gollir felly i 8.59 FTE (cyflogaeth amser llawn). Drwy gydol y broses, ymgynghorwyd â'r Undebau.
- O ran llety, nid oedd yn bendant y byddai unrhyw un o'r dewisiadau llety'n bodloni'r meini prawf a osodwyd.
- Cadarnhawyd bod y Gofrestr Risg yn cael ei diweddaru ddwywaith y mis ac y byddai'n cael ei diweddaru ar ôl y cyfarfod.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid eto i'r Aelodau nad oedd integreiddio llwyr yn y ddau Awdurdod Lleol yn ariannol ddichonadwy ond y gallai cydweithio ddigwydd o hyd. Ni fyddai integreiddio llwyr o fudd i breswylwyr o ran gwerth am arian. Roedd cydweithio mewnol yn cael ei asesu e.e. yr adran briffyrdd yn cydweithio ag adran yr amgylchedd.

Penodwyd y Cyd-bennaeth Priffyrdd a Seilwaith ym mis Ionawr 2009 i weithio ar gydweithio. Roedd gwaith sylweddol wedi digwydd drwy gydol y 3 blynedd flaenorol, er enghraifft:-

- Drwy gydweithio ar lwybrau graeanu, llwyddwyd i leihau nifer y cerbydau graeanu o 23 i 21
- Roedd contractau cyfunol ar gyfer cynnal a chadw a
- System drwyddedu a rennir yn y Gwasanaethau Morol.

Nid oedd cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol yn ofyniad statudol ond cafwyd cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru y byddai'n rhy ddrud cael 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru'n gweithio'n annibynnol, a bod angen cydweithio, lle bynnag y bo modd, i leihau costau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid argymhellion Bwrdd Rhaglen Gydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych:-

- Roedd argymhelliad 3.1 wedi'i osod yn yr adroddiad am nad oedd yr Achos Busnes yn gwneud achos clir dros wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig. Nid yw Conwy a Sir Ddinbych yn mynd ymlaen â'r dewis hwn.
- Parhaodd argymhelliad 3.2 i ystyried sut gallai'r prosiect symud ymlaen, nid gydag integreiddio llwyr ond cynllun cydweithio. Roedd 4 maes yn cael eu hasesu:-
    - goleuadau stryd a chludiant rhwng y cartref a'r ysgol, am nad oedd y rhain yn perfformio cystal ag y dylent
    - edrych ar gyfleoedd pellach lle'r oedd achos dros newid yn gadarnhaol ac yn fuddiol i breswylwyr a lle byddai'n lleihau costau
    - roedd adroddiad archwiliad wedi'i wneud ac roedd cyfle i'r adran Briffyrdd gydweithio ag adran yr Amgylchedd

- datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant cyhoeddus. Byddai penderfyniadau'n seiliedig ar achos busnes cadarn dros newid.

Byddai'r adroddiad, ynghyd â'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Hydref.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig ar 5 Rhagfyr, 2012, i gyflwyno'r adroddiad wedi'i ddiweddaru yn manylu ar ddewisiadau cydweithio i'r dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n cefnogi'r argymhellion canlynol:-*

*(i) Am nad oedd yr Achos Busnes yn gwneud achos clir dros Wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig, nid yw Conwy a Sir Ddinbych yn mynd ymlaen â'r dewis hwn;*

*(ii) Bod Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i'n preswylwyr drwy:*

*a. Cryfhau'r meysydd iswasanaeth hynny sydd o dan reolaeth sengl*

*b. Archwilio'r meysydd iswasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle gallai cydweithio fod o fudd i'n preswylwyr*

*c. Archwilio cyfleoedd lleol (penodol i Awdurdod) i gydweithio a threfniadau rheoli ar y cyd rhwng gwasanaethau presennol, a*

*d. Cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a allai sicrhau buddion ychwanegol, os cânt eu cyflwyno'n dda. Bydd angen seilio penderfyniadau ar achos busnes cadarn dros newid o ran elfennau felly.*

*(iii) Trefnu cyfarfod Craffu Partneriaethau Arbennig ar gyfer 5 Rhagfyr, 2012 i gael adroddiad Cydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych wedi'i ddiweddaru.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 a.m.**